# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 21 Chwefror 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

# 191(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Newid Hinsawdd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Weinidog y Gymraeg ac Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 3.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad - Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE

(60 munud)

**NDM8488** Huw Irranca-Davies (Ogwr)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sef "Ymchwiliad i lywodraethiant y DU a'r UE", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Tachwedd 2023.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2024.

**Dogfennau ategol**

Ymateb Comisiwn y Senedd i'r adroddiad

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

(60 munud)

**NDM8489** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod gwaith ac ymroddiad staff gweithgar ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

2. Yn nodi:

a) bod 27 Chwefror 2024 yn nodi blwyddyn ers i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gael ei roi yn ôl mewn mesurau arbennig;

b) bod y bwrdd iechyd yn destun mesurau arbennig yn flaenorol rhwng 8 Mehefin 2015 a 24 Tachwedd 2020, lai na 6 mis cyn etholiadau'r Senedd yn 2021; ac

c) bod y bwrdd iechyd wedi treulio mwy o amser mewn mesurau arbennig nag unrhyw sefydliad GIG arall yn hanes y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

3. Yn gresynu nad yw cleifion a staff wedi gweld y gwelliannau gofynnol eto ers i'r bwrdd gael ei roi mewn mesurau arbennig.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gwrando ar bryderon gweithwyr proffesiynol gofal iechyd pan godir pryderon am ansawdd gwasanaethau; a

b) sicrhau bod cleifion yng Ngogledd Cymru yn cael y gofal iechyd amserol, o ansawdd uchel y maent yn ei haeddu.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu popeth ar ôl 2(a) a rhoi yn ei le:

bod rhaid i unrhyw benderfyniad i uwchgyfeirio neu isgyfeirio sefydliad GIG fod yn seiliedig ar ystyriaeth briodol o ystod helaeth o ffactorau a thystiolaeth ffeithiol;

Yn nodi ymhellach:

a) y gwnaeth adolygiad dilynol Archwilio Cymru o effeithiolrwydd y Bwrdd gydnabod gwelliant o ran sefydlogrwydd y Bwrdd a dod i'r casgliad nad yw'r camweithrediad yn y Bwrdd a ddisgrifiwyd yn ei adroddiad blaenorol i'w weld mwyach; a

b) bod perfformiad ar gyfer gofal a gynlluniwyd wedi gwella ers mis Chwefror 2023, gydag 1.5 pwynt canran o welliant yn erbyn y targed 26 wythnos, 15.5 y cant o ostyngiad yn nifer y bobl sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf a'r nifer lleiaf o bobl yn aros cyfanswm o dros 104 wythnos ers mis Awst 2021.

Yn cydnabod:

a) bod Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod heriau sylweddol yn dal i fod; a

b) bod Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r bwrdd iechyd a'i ddwyn i gyfrif i sicrhau ei fod yn gwrando ar bryderon gweithwyr gofal iechyd proffesiynol pan godir pryderon ynghylch ansawdd gwasanaethau ac yn darparu'r gofal iechyd amserol, o ansawdd uchel y mae cleifion yng Ngogledd Cymru yn ei haeddu.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 2** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

cyhoeddi proses ddad-ddwysáu glir, gan gynnwys egluro pwy sy'n cyfrannu at y broses ddad-ddwysáu a phwy fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol, tra hefyd yn darparu esboniad o'r penderfyniad;

**Gwelliant 3** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu penodiad Dyfed Edwards fel Cadeirydd newydd y Bwrdd Iechyd ac yn galw ymhellach ar Lywodraeth Cymru i ddarparu amserlen glir ar gyfer penodi cyflenwad llawn o gyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau annibynnol.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Ymchwiliad Covid penodol i Gymru

(60 munud)

**NDM8483** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi bydd Modiwl 2B o Ymchwiliad Covid y DU yn clywed tystiolaeth yng Nghymru rhwng 27 Chwefror a 14 Mawrth 2024.

2. Yn credu:

a) bod Modiwl 2B o ymchwiliad Covid y DU: 'Gwneud penderfyniadau gwleidyddol a gweinyddol craidd yng Nghymru' yn annigonol i alluogi Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill i ddysgu gwersi o'r ymateb i'r pandemig yng Nghymru;

b) nad yw'r rhestr cyfranogwyr craidd ar gyfer gwrandawiadau Ymchwiliad Covid y DU yn cynnwys yr ystod lawn o sefydliadau perthnasol Cymreig;

c) ni all Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad COVID-19 Cymru asesu'r ystod lawn o faterion sy'n gysylltiedig â'r modd roedd Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'r pandemig;

d) bod methiant i sefydlu ymchwiliad Covid penodol i Gymru yn tanseilio datganoli;

e) bod ymchwiliad Covid penodol i Gymru yn hawl sylfaenol i bawb a gollodd anwyliaid oherwydd Covid.

3. Yn cydnabod pwysigrwydd Ymchwiliad Covid y DU wrth nodi sut y dylanwadodd penderfyniadau gan Lywodraeth y DU ar ymateb Covid yng Nghymru.

4. Yn gresynu nad yw Llywodraeth Cymru, yn wahanol i Lywodraeth yr Alban, wedi sefydlu ymchwiliad penodol i Gymru i archwilio'n llawn weithredoedd a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru cyn, yn ystod ac ar ôl y pandemig.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu ymchwiliad Covid Cymru dan arweiniad barnwr.

**Cefnogwyr**

Russell George (Sir Drefaldwyn)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod bod y Senedd, oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod sefydlu ymchwiliad Covid yng Nghymru, wedi sefydlu pwyllgor arbennig i geisio cael atebion i deuluoedd a ffrindiau'r rhai a fu farw yn ystod y pandemig.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

## 9 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM8484** Sioned Williams (Gorllewin De Cymru)

Pwysigrwydd llais Cymru yn yr ymgyrch dros heddwch - dathlu canmlwyddiant cyflwyno deiseb heddwch menywod Cymru i'r Arlywydd Coolidge a rôl Cymru wrth godi llais dros heddwch heddiw.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 27 Chwefror 2024

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 14/02/2024 i'w hateb ar 21/02/2024

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG NEWID HINSAWDD

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OQ60703 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynnwys cymunedau wrth greu coedwig genedlaethol i Gymru?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

2 OQ60682 **(d)**

Sut mae'r Llywodraeth yn cefnogi trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngorllewin De Cymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

3 OQ60698 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth llwybrau bysiau yng Ngogledd Cymru?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

4 OQ60710 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau bysiau yn ne-ddwyrain Cymru?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

5 OQ60701 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar wasanaethau bysus yng nghymunedau gogledd Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

6 OQ60690 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella diogelwch priffyrdd ar y rhwydwaith cefnffyrdd?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

7 OQ60696 **(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn ei ddarparu i amddiffyn cymunedau yn Sir y Fflint rhag llifogydd?

8 **Ken Skates** *De Clwyd*

OQ60707 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sector ynni niwclear yng Nghymru?

9 **John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

OQ60705 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith ei pholisïau ar gyfer gwyrddu ardaloedd trefol?

10 **Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

OQ60685 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

Pa wersi y mae Llywodraeth Cymru wedi'u dysgu o'r cap ar renti yn yr Alban?

11 **Joel James** *Canol De Cymru*

OQ60699 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi diweddariad ar yr amserlen ar gyfer gweithredu cynllun wedi'i dargedu i adfer morwellt?

12 **Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OQ60697 **(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i godi isafswm effeithlonrwydd gwres tai rhent preifat?

## GWEINIDOG Y GYMRAEG AC ADDYSG

1 **Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

OQ60709 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y bydd toriadau posibl i'r gyllideb brentisiaethau yn ei chael ar y sector addysg bellach ar Ynys Môn?

2 **Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

OQ60711 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch argaeledd darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg?

3 **Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

OQ60693 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi dysgwyr yn Nwyrain De Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

4 OQ60677 **(w)**

Pa drafodaethau mae'r Gweinidog yn eu cael efo'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglyn a sefydlu ysgol ddeintyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

5 OQ60675 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyflogwyr wrth ddatblygu TAAU?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

6 OQ60683 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Eisteddfod Genedlaethol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i sicrhau gwaddol o ran y Gymraeg yn sgil yr Eisteddfod yn dod i'r ardal eleni?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

7 OQ60704 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith ei pholisïau ar addysg blynyddoedd cynnar?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

8 OQ60686 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ynghylch y toriadau addysg a gynigiwyd gan ei gabinet?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

9 OQ60679 **(d)**

Sut mae'r Llywodraeth yn cefnogi dysgwyr ôl-16 sydd ag anableddau dysgu yng Ngorllewin De Cymru?

**Jane Dodds** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

10 OQ60688 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i sut y byddai newidiadau i'r flwyddyn ysgol yn effeithio ar dwristiaeth wledig a'r economi yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

11 **Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

OQ60702 **(w)** Tynnwyd yn ôl

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu ysgolion addysg arbennig?

12 **Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

OQ60692 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog gadarnhau polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwahardd o'r ysgol yng Nghymru?